Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Lawnt

**Surgery Hill**
**Rhymni**
**NP22 5LS**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Y Lawnt

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Y Lawnt |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 212 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 147 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 35 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 23%) | 18.4% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 23.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 6.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Ebrill 2013 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 05/05/2014 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae’r term ‘anghenion addysgol arbennig’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Y Lawnt yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy’n dathlu cynnydd a chyflawniad yr holl ddisgyblion yn arbennig o effeithiol. Mae’r pennaeth, gyda chefnogaeth werthfawr y corff llywodraethol, yn cynnig arweinyddiaeth glir a doeth ac yn parchu ymdrechion pawb sy’n cyfrannu at addysg gyflawn y disgyblion.

Mae ethos yr ysgol wedi ei seilio’n gadarn ar weledigaeth gytûn, sef hyrwyddo Cymreictod, cwrteisi a chyfrifoldeb. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agweddau cryf iawn tuag eu dysgu, yn gofalu am eraill ac yn ymfalchïo yn eu Cymreictod a’u hysgol.

Mae gan yr athrawon a’r cynorthwywyr dysgu ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion o ran cyflawniad ac ymddygiad, ac maent yn eu cefnogi i ddatblygu eu medrau’n llwyddiannus. Maent yn gosod amcanion dysgu clir ac yn datblygu’r gweithgareddau gyda rhediad addas. Defnyddiant ystod o brofiadau gwreiddiol i ennyn diddordeb a brwdfrydedd disgyblion. Yn yr enghreifftiau gorau, maent yn defnyddio dulliau holi amrywiol yn effeithiol iawn er mwyn ymestyn dealltwriaeth disgyblion o wahanol gyd-destunau dysgu.

Maent yn darparu cefnogaeth lles werthfawr i ddisgyblion, er enghraifft trwy gymryd rhan yng ngweithgareddau wythnosol ‘Gwener Gwenu’, sy’n cael effaith gadarnhaol ar allu disgyblion i ymroi’n llawn i’w dysgu.

Mae’r Caffi Clic a Chlonc wythnosol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iawn i’r holl ddisgyblion yn eu tro i ddatblygu eu medrau a chymhwyso medrau bywyd go iawn trwy weithio gydag aelodau’r gymuned, gan gynnwys rhieni’r ysgol. Er enghraifft, mae’r disgyblion yn llunio bwydlenni, coginio bwyd i’w weini, a delio ag arian wrth werthu’r cynnyrch ac yna dadansoddi’r elw.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cynnydd o’u mannau cychwyn gyda’u medrau, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen Cymraeg y disgyblion yn datblygu’n ddigon da.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau darllen Cymraeg disgyblion

A2 Rhannu arfer orau yr addysgu ar draws yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol mwyafrif y disgyblion yn cyfateb i’r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed, heblaw yn y Gymraeg lle mae’r iaith yn newydd i’r rhan fwyaf ohonynt. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy’n briodol i’w hoedrannau a’u mannau cychwyn yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn dangos cynnydd cadarn o flwyddyn i flwyddyn ac yn ystod y flwyddyn ysgol.

Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa’n bwrpasol mewn sefyllfaoedd amrywiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn gwrando’n astud ar gyfarwyddiadau oedolion ac yn dangos parch at farn disgyblion eraill. Erbyn Blwyddyn 4, mae’r rhan fwyaf yn defnyddio dulliau dychymygus i ddysgu geirfa newydd am thema, er enghraifft drwy gyfansoddi a chanu rap Calon Lân.

Ar frig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu’n rhugl yn y Gymraeg a Saesneg ac yn siarad yn hyderus mewn ystod o gyd-destunau. Mae’r rhan fwyaf yn gwrando’n dda ac yn parchu safbwyntiau eraill wrth drafod testunau amrywiol yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, mae geirfa gyfyngedig yn rhwystro ychydig o ddisgyblion rhag cyfathrebu’n gynyddol hyderus yn y Gymraeg ar draws yr ysgol.

Mae medrau darllen mwyafrif y disgyblion yn datblygu’n dda. Mae’r disgyblion ieuengaf yn dechrau defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae tua hanner y disgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn gynyddol hyderus, er enghraifft wrth ddilyn cyfarwyddiadau ar sut i wneud bisgedi bachgen sinsir. Mae llawer o’r disgyblion hŷn yn darllen yn gynyddol gywir yn y Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn defnyddio goslef na mynegiant tra’n darllen ar goedd. Mae’r rhan fwyaf yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol yn Saesneg. Yn ogystal, maent yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn bwrpasol i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft trwy ymchwilio i nodweddion portread effeithiol.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Mae disgyblion y dosbarth meithrin yn ymarfer patrymau a siapiau yn llwyddiannus gan ddefnyddio gwahanol offer, gan gynnwys adnoddau naturiol yn yr awyr agored. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn dechrau ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, sy’n cynnwys cofnodi cyfarwyddiadau rysait i wneud bisgedi. Mae llawer o’r disgyblion hŷn yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn gadarn. Erbyn Blwyddyn 4, mae gan lawer ddealltwriaeth gynyddol o ramadeg, sy’n cynnwys y defnydd cywir o ferfau a threigladau. Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn raddol, sy’n cynnwys ysgrifennu diweddglo gwreiddiol i chwedl. Mae llawer o’r disgyblion hŷn yn adeiladu ar y profiadau hyn trwy ysgrifennu pamffled o wybodaeth am ddyfeisiau o’u dewis.

O ddechrau eu cyfnod yn yr ysgol hyd at Flwyddyn 2, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol. Maent yn defnyddio dulliau cyfrifo yn y pen i ddatrys problemau arian ac yn cymhwyso eu medrau’n llwyddiannus i

ddatrys problemau mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn amcangyfrif ac yn mesur pellter croesi afon ddychmygol yn yr awyr agored. Ym mlynyddoedd hynaf yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhif, gan adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn fedrus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu dulliau mathemateg yn effeithiol, er enghraifft wrth ymchwilio i arwynebedd siapiau offer go iawn tra'n cynllunio ardal caffi'r ysgol.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau gyda'r llechen gyfrifiadurol yn briodol ac yn defnyddio apiau amrywiol sy'n hybu eu medrau llafar. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn gwella eu medrau yn bwrpasol, er enghraifft wrth ddefnyddio meddalwedd rheoli teclyn rhaglenadwy i symud o gwmpas map. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae medrau llawer o ddisgyblion yn adeiladu'n gyson wrth ddefnyddio ystod gynyddol o feddalwedd a chyfarpar digidol. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn creu gêm gyfrifiadurol yn seiliedig ar thema'r dosbarth yn llwyddiannus.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol iawn. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn actio prif ddigwyddiadau stori yn yr ardal allanol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau gweithgareddau celf ac yn gwneud dewisiadau bwriadus wrth ddethol adnoddau gwahanol i gyfleu darluniau diddorol. Maent yn efelychu gwaith artistiaid yn fedrus ac yn amrywio'r tôn a'r lliw yn ofalus, er enghraifft gwaith Picasso ac Emma Siân Pritchard, a dadansoddi arddull Aiden Saunders wrth iddo ddilyn dulliau gwaith celf y Celtiaid. Caiff gwaith creadigol disgyblion ei arddangos yn atyniadol iawn o fewn yr amgylchedd dysgu lliwgar sy'n meithrin eu balchder wrth ddathlu eu gwaith.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn o ganlyniad i amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ymroi'n frwdfrydig i weithgareddau corfforol yn yr ardal allanol ac wrth gymryd rhan mewn sesiynau ymarfer corff. Mae'r disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus drwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau corfforol fel rhan o'u thema, gan gynnwys dawnsio, ioga a chwaraeon amrywiol mewn clybiau ar ôl ysgol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel o dan ofal holl staff yr ysgol. Mae'r disgyblion yn dangos balchder at eu hysgol ac yn siarad yn gadarnhaol am y staff. Mae bron pob un yn teimlo eu bod nhw'n cael eu parchu a'u trin â thegwch ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ethos teuluol, cartrefol a chynhwysol yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi am gefnogaeth os oes rhywbeth yn eu pryderu nhw ac maent yn hyderus y bydd y staff yn gwrando arnynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau bod yn yr ysgol ac yn siarad yn frwdfrydig am eu dysgu a'r holl brofiadau a gynigir iddynt. Mae bron pob disgybl yn dweud eu bod nhw'n hapus yn yr ysgol oherwydd gofal a charedigrwydd y staff, cynnwys y gwersi a phrofiadau allgyrsiol cyffrous.

Yn ystod gwersi ac amser egwyl, mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda iawn ac maent yn dangos parch a chwrteisi at ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn briodol i weithgareddau yn eu dosbarthiadau ac yn

ystod gwersi yn yr awyr agored. Maent yn cyfrannu'n bwrpasol trwy gynnig eu syniadau eu hunain a chydweithio'n llwyddiannus gyda'u cyfoedion ac eraill. Er enghraifft, trwy lunio mapiau meddwl, maent yn mynegi barn a chynnig syniadau am gynnwys eu gwersi thema ar ddechrau pob tymor. Maent yn dangos brwdfrydedd a diddordeb yn eu gwaith ac yn ymateb yn dda i gefnogaeth ac adborth gan staff. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch wrth gwblhau tasgau, ac yn cyfleu lefel uchel o falchder yn eu gwaith.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth o bwysigrwydd cadw'n heini a bwyta'n iach. Maent yn esbonio manteision bwyta bwydydd iach a pham na ddylent fwyta gormod o fraster a siwgr. Mae'r rhan fwyaf yn gwybod effaith gadarnaol gweithgareddau ymarfer corff ac yn mwynhau cymryd rhan mewn sesiynau amrywiol gan gynnwys gweithgareddau lles 'Gwener Gwenu'.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n  ddinasyddion moesegol trwy eu gwaith codi ymwybyddiaeth a chodi arian i helpu eraill yn yr Wcráin.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarn at ddysgu trwy eu gwaith creadigol. Mae'r rhan fwyaf yn frwdfrydig wrth ddatblygu eu medrau arlunio. Er enghraifft, ar draws yr ysgol, maent yn fentrus wrth arbrofi ag amrywiaeth o gyfryngau a deunyddiau i gynhyrchu gwaith celf o safon uchel.

Mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o'u hawliau yn datblygu ac maent yn ymwybodol o'r hawl i fod yn ddiogel. Mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth dda o sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein, trwy eu gwaith â'r heddlu. Mae'r ditectifs digidol wedi creu rhestr o raglenni ar-lein ac apiau sy'n addas ac yn anaddas ar gyfer plant, ac mae hyn wedi atgyfnerthu ymwybyddiaeth llawer o ddisgyblion.

Mae'r rhan o fwyaf o ddisgyblion yn cymryd eu rolau o ddifri ar draws yr ysgol. Er enghraifft, maent yn cyfrannu'n werthfawr at gaffi'r ysgol, gan greu amserlenni ar gyfer gweithio yn y caffi a llunio bwydlenni amrywiol. Maent yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac yn chwarae rhan bwysig yn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynglŷn â rhedeg y caffi fel busnes sydd ar agor i'r gymuned.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gweledigaeth yr ysgol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru yn datblygu'n effeithiol. Mae'r holl athrawon yn cynllunio'n bwrpasol yn unol â'r 6 maes dysgu a phrofiad, gan gyfeirio'n gyson at egwyddorion y pedwar diben. Mae cwricwlwm 'Cyfoethion ein cwm' wedi ei seilio'n gadarn ar addysgu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, gan alluogi disgyblion i'w cymhwyso mewn themâu sy'n ehangu a dathlu eu gwybodaeth o'u hardal leol, eu treftadaeth a'r byd ehangach.

Mae'r athrawon yn cyd-gynllunio'n effeithiol i sicrhau bod pob disgybl yn cael profiadau gwerthfawr sy'n cyfoethogi eu gwybodaeth ac adnabyddiaeth drylwyr o'r ardal leol a thu hwnt. Mae'r disgyblion yn elwa o brofiadau dychmygus o ddysgu yn yr awyr agored, er enghraifft wrth ymchwilio i safle trosedd ar dir yr ysgol i ddarganfod y sawl oedd yn euog o'r weithred anffodus.

Yn y dosbarthiadau ieuengaf, mae egwyddorion dysgu sylfaenol wedi eu gwreiddio'n gadarn. Mae bron pob gweithgaredd yn yr ardaloedd yn datblygu annibyniaeth

disgyblion yn fedrus ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Caiff athrawon eu cefnogi'n hynod effeithiol gan dîm medrus o gynorthwywyr sy'n annog disgyblion i ddysgu'n effeithiol, yn enwedig yn yr ardal tu allan. Mae adnoddau gweledol ysgogol sy'n hyrwyddo medrau ieithyddol a rhif yn amlwg yn yr ardaloedd hyn er mwyn atgyfnerthu'r dysgu'n effeithiol.

Mae'r Caffi Clic a Chlonc wythnosol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iawn i'r holl ddisgyblion ddatblygu eu medrau a chymhwyso medrau bywyd go iawn trwy weithio gydag aelodau'r gymuned a rhieni. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn llunio bwydlenni, coginio bwyd i'w weini i rieni a delio ag arian wrth werthu'r cynnyrch a darganfod elw.

Mae cynlluniau athrawon yn ddiddorol ac yn addas ar gyfer oed a gallu'r disgyblion. Er hyn, mae'r cynnwys yn hyblyg acmae'r athrawon yn addasu gweithgareddau dysgu wrth iddynt ystyried ymatebion disgyblion yn ystod gwersi. Mae'r cynlluniau hefyd yn gynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle teg i'r holl ddisgyblion elwa ar brofiadau, yn enwedig disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai sydd ag anghenion dysgu dwys.

Cymreictod yw un o werthoedd pwysig yr ysgol ac mae'n flaenoriaeth amlwg i'r holl staff a disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg mewn gweithgareddau addysgu ffurfiol ac anffurfiol yn fwriadus ac yn cael effaith gadarnhaol ar safon iaith lafar y rhan fwyaf o ddisgyblion wrth iddynt gyrraedd brig yr ysgol.

Mae cyfrifoldeb yn un arall o werthoedd yr ysgol ac mae cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol pob disgybl yn greiddiol i waith yr holl staff. Mae'r staff yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw, er enghraifft dysgu am yfed a bwyta'n iach a chodi ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar-lein. Mae cefnogi lles a iechyd meddwl disgyblion yn rhan annatod o waith yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys darparu ardaloedd tawel i ddisgyblion bregus, gweithgareddau llesiant yn y dosbarthiadau ac yn awyr agored, a'r defnydd o arddangosfeydd atyniadol sy'n hybu trafod teimladau'n agored.

Mae gan staff berthynas dda iawn â'r disgyblion sy'n meithrin amgylchedd cadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu. Maent yn gosod amcanion dysgu clir ac yn datblygu'r gweithgareddau dysgu gyda rhediad addas. Defnyddiant ystod o brofiadau gwreiddiol i ennyn diddordeb a brwdfrydedd disgyblion. Mae mwyafrif o athrawon yn defnyddio dulliau holi amrywiol yn effeithiol iawn er mwyn ymestyn dealltwriaeth disgyblion o wahanol gyd-destunau dysgu.

Mae llawer o athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion, sydd yn eu cefnogi i wella eu gwaith yn bwrpasol. Rhoddir cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn unol â disgwyliadau'r weithgaredd. Trwy wneud hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut i wella eu gwaith ac yn gallu egluro beth yw'r camau nesaf yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r arfer orau wedi lledaenu'n llawn drwy'r ysgol. O ganlyniad nid yw'r disgwyliadau uchel wedi'u gwreiddio ymhob dosbarth.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r staff yn ymroi i greu cymuned ofalgar a chynnes i’r disgyblion. Mae perthnasoedd gwaith pwrpasol yn bodoli rhwng y staff a’r disgyblion ac maent yn eu hadnabod yn dda iawn. Mae’r awyrgylch gadarnhaol o fewn yr ysgol gyfan yn cefnogi’r disgyblion i ddangos parch, cwrteisi a charedigrwydd tuag at bawb. Mae’r staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yr holl ddisgyblion yn effeithiol ac yn mynd i’r afael ag unrhyw fwlio mewn modd cadarn. Caiff y negeseuon eu cyfathrebu ar bosteri, arddangosfeydd o gwmpas yr ysgol ac mewn gwasanaethau.

Mae anghenion iechyd a lles emosiynol disgyblion yn flaenoriaeth amlwg drwy’r ysgol ac mae gan yr ysgol weledigaeth glir sy’n sicrhau bod gweithgareddau pwrpasol, creadigol a chorfforol yn cael eu cynnig. Er enghraifft, mae pob disgybl yn elwa o brofiad ‘Gwener Gwenu’ yn wythnosol, sef gweithgareddau dawns, drama, celf, cerddoriaeth, TGCh ac addysg gorfforol. Mae’r ysgol hefyd yn darparu cyfleoedd i’r disgyblion ddatblygu eu medrau ar draws y cwriwclwm ac ehangu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd busnes. Mae’r staff hefyd yn hybu pwysigrwydd bwyta’n iach ac yn annog ffitrwydd corfforol trwy ystod o weithgareddau allgyrsiol. Er enghraifft, maent wedi cymryd rhan mewn prosiect sy’n ffocysu ar hybu’r disgyblion i flasu amrywiaeth o wahanol lysiau a dilyn ryseitiau iachus ar-lein. Mae’r staff yn ymwybodol o anghenion teuluoedd difreintedig ac yn sicrhau bod holl weithgareddau allgyrsiol yr ysgol yn hygyrch i bob disgybl.

Cynigir darpariaeth effeithiol iawn gan yr ysgol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni ymyrraeth penodol a phwrpasol i wella medrau llythrennedd a rhifedd. Mae’r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) yn gwneud defnydd da o’r gefnogaeth sydd ar gael gan asiantaethau allanol ac yn gweithredu trefn newydd y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol yn effeithiol. Mae arweinwyr yr ysgol yn olrhain cynnydd y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â’u targedau personol. Mae’r ysgol yn cyfathrebu’n fwriadus â rhieni disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol am eu cynnydd mewn cyfarfodydd a thrwy ddiweddaru dogfennaeth sy’n rhoi’r disgybl yn ganolog. O ganlyniad i fonitro a gwerthuso’r ddarpariaeth yn gyson, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd sy’n cyfrannu at ddatblygu medrau moesol y disgyblion ac yn cefnogi’r disgyblion i ddangos empathi at eraill. Er enghraifft, maent yn cynnal gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o nwyddau masnach deg a chodi arian i helpu ffermwyr mewn gwledydd tlawd.

Mae trefniadau addoli ar y cyd yn cefnogi’r disgyblion i ddatblygu eu medrau ysbrydol trwy ehangu eu dealltwriaeth o Gristnogaeth a meddwl am eu gwerthoedd eu hunain. Cynigir cyfleoedd i ddisgyblion astudio crefyddau eraill, megis Islam, a chynhelir gŵyl gwledydd i roi cyfle i ddisgyblion astudio diwylliannau a thraddodiadau amrywiol. Yn y cyfnod sylfaen, darperir cyfleoedd i ddisgyblion ddathlu traddodiadau’r Flwyddyn Newydd Tseiniaidd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol ar gyfer monitro presenoldeb. Maent yn gwobrwyo disgyblion ar gyfer presenoldeb da ac yn cydweithio’n agos iawn â’r teuluoedd a’r swyddog lles.

Mae’r holl staff yn deall eu cyfrifoldebau wrth ddiogelu disgyblion; mae’r trefniadau’n bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Yn ogystal, mae’r ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am eu hawliau fel plant. Er enghraifft, mae asiantaethau fel yr NSPCC yn gweithio gyda’r disgyblion ac yn trafod eu hawliau.

Mae arweinwyr ac athrawon yn cyfathrebu’n effeithiol â’r rhieni a gofalwyr gan ddefnyddio ystod dda o gyfryngau cymdeithasol yn ogystal â’u parodrwydd i drafod â rhieni yn uniongyrchol yn ôl yr angen. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon yn syth. Yn ogystal, mae’r ysgol wedi parhau i gefnogi a chyfathrebu’n effeithiol â rhieni a gofalwyr trwy gydol y pandemig ac yn ystod y misoedd oedd yn dilyn.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae’r pennaeth a’r tîm arwain yn darparu arweinyddiaeth gadarn iawn i’r ysgol, sy’n sicrhau cyfeiriad strategol effeithiol a diwylliant sy’n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae ganddynt weledigaeth eglur sy’n seiliedig ar sicrhau bod lles disgyblion a staff yn rhan ganolog o fywyd yr ysgol. Maent yn rhannu’r weledigaeth honno â’r staff, disgyblion, rhieni a’r llywodraethwyr yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae gan bawb ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain, ei gilydd ac o safonau cyflawniad disgyblion.

Mae systemau arweinyddiaeth wedi’u sefydlu ar draws yr ysgol yn effeithiol ac mae aelodau’r uwch dîm arwain ac aelodau eraill y staff yn cydweithio’n hwylus, yn cyflawni eu rolau yn drylwyr, ac yn cefnogi’r pennaeth yn fwriadus. Mae arweinwyr yn cynllunio’n bwrpasol iawn i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae’r staff yn frwdfrydig wrth fynd i’r afael â datblygiadau diweddar ym maes addysg. Er enghraifft, maent yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm i Gymru ac yn cyflwyno elfennau allweddol y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol yn effeithiol. Mae ffocws yr ysgol gyfan ar hybu’r Gymraeg a Chymreictod yn gyson, ac  mae hyn yn datblygu balchder y disgyblion tuag at eu hunaniaeth a’u treftadaeth.

Mae blaenoriaethau’r ysgol ar gyfer gwella yn seiliedig ar amrediad da o dystiolaeth uniongyrchol ac mae dealltwriaeth y staff ohonynt yn gadarn. Mae systemau effeithiol yn bodoli i adolygu cynnydd, nodi meysydd ar gyfer gwella a chymryd camau i’w gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad gofalus o gynnydd a deilliannau’r disgyblion, craffu ar waith ac arsylwi gwersi. Mae’r staff ac aelodau’r corff llywodraethol yn cymryd rhan gynhwysol yn y broses o fonitro, gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, maent yn adnabod eu hysgol yn dda iawn ac yn mynd i’r afael â rhan fwyaf o’r gwelliannau’n gyflym a llwyddiannus.

Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd i drefnu a gweithredu gweithgareddau er mwyn cyflawni’r blaenoriaethau cytûn. Mae gan bob un o’r athrawon gyfrifoldeb am faes dysgu a phrofiad. Mae’r staff cynorthwyol yn aelodau allweddol o dîm yr ysgol ac maent yn cyfrannu’n gyson at wella safonau dysgu, lles a medrau cymdeithasol y disgyblion.

Mae gan aelodau’r corff llywodraethol wybodaeth gadarn am berfformiad ac effaith gweithdrefnau’r ysgol ar safonau a lles y disgyblion. Maent yn rhannu cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn cynnal ymweliadau pwrpasol i werthuso effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion. Maent yn herio’r ysgol ar faterion addas yn

synhwyrol ac yn cyfrannu'n briodol i lunio gweithdrefnau a strategaethau clir er mwyn gwella. Maent yn cydweithio ag arweinwyr a disgyblion i sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ag yfed yn iach.

Mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gyllideb yr ysgol i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion. Maent yn cysylltu'r gwariant yn briodol â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ac yn monitro'r cyllid yn ofalus i sicrhau'r defnydd gorau ohono. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd synhwyrol o'r grant datblygu disgyblion sy'n cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles grwpiau penodol o ddisgyblion.

Nodwedd gadarn arall arweinyddiaeth yw'r cyfleoedd pwrpasol sy'n galluogi staff ar bob lefel i ddatblygu'n broffesiynol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i gael hyfforddiant pwrpasol am ddatblygiadau'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn hyrwyddo dysgu proffesiynol y staff yn dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae'r pennaeth yn cefnogi athrawon i gynnal ymchwil ar agweddau o'u hymarferion dosbarth er mwyn adnabod effaith ar gyrhaeddiad disgyblion. Mae gan yr ysgol berthynas weithredol â'r ysgol uwchradd a gweddill ysgolion y clwstwr sy'n cynnwys llunio cynlluniau strategol ar gyfer cyflwyno gofynion y Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r berthynas sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn un gadarn. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau o ddydd i ddydd.

O ganlyniad i'r holl agweddau cadarnhaol hyn, mae yna ddiwylliant llwyddiannus o gydweithio byrlymus ac effeithiol sy'n cyfrannu'n sylweddol at ethos croesawgar a chynnes yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/12/2022